

Ffyrdd a effeithir gan newidiadau i'r terfyn cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig: canllaw i ddefnyddwyr

Cynnwys

Optimeiddio eich profiad o MapDataCymru.....	2
Gweld y map	3
Tudalen catalog	3
1. Tudalen catalog: rhagolwg map	3
Syllwr mapiau	5
Syllwr mapiau: dewislen llywio	7
Syllwr mapiau: tabl cynnwys	8
Syllwr mapiau: cynfas map	10
Atodiad A.....	12

Optimeiddio eich profiad o MapDataCymru

I gael y profiad defnyddiwr gorau, dylech ddefnyddio cyfrifiadur, gliniadur neu dabled gydag un o'r porwyr rhynggrwyd canlynol:

- Microsoft Edge
- Google Chrome
- Apple Safari (ar gael ar gynhyrchion Apple yn unig) – nid yw Safari yn caniatáu gweld y map sgrin lawn

Mae defnyddwyr yn cael eu hatgoffa i gadw systemau gweithredu, porwyr a chymwysiadau yn gyfredol bob amser.

Gallwch ehangu cynfas y map drwy ddefnyddio gosodiadau chwyddo eich porwr.

Dylech fod yn ymwybodol bod MapDataCymru yn defnyddio PDF fel ei fformat allbwn ar gyfer argraffu. Bydd y gosodiadau lleol ar eich dyfais yn penderfynu sut mae PDFs yn cael eu trin.


Gweld y map

Tudalen catalog

Mae'r **dudalen catalog** yn cynnwys rhagolwg map gyda rhywfaint o swyddogaethau cyfyngedig, yn ogystal â chrynodeb o'r map, dolenni i'r metadata, a dolenni i'r haenau ar wahân sy'n creu'r map.

1. Tudalen catalog: rhagolwg map

Mae'r rhagolwg map yn darparu trosolwg o'r data.



I chwyddo i mewn ac allan o'r map:

- gallwch ddefnyddio'r botymau + a – i chwyddo i mewn ac allan:



- gallwch hefyd ddwbl-glicio ar y map i chwyddo i mewn ar y pwynt hwnnw

- ar fwrdd gwaith, gallwch wasgu bysell 'shift' gan glicio a llusgo ar ardal o'r map, i chwyddo i mewn ar yr ardal honno
- ar ddyfais symudol, gallwch binsio-i-chwyddo ar ardal benodol o'r map


I newid y map sylfaenol:

2. Defnyddiwch y cryno-lun o'r map sydd ar y map:



3. Defnyddiwch y saethau i newid y map sylfaenol a ddewiswyd.
4. Dewiswch y map sylfaenol rydych chi'n ei ffafrio.

I weld y map llawn o'r dudalen catalog defnyddiwch y botwm Dangos yn y syllwr mapiau:



Bydd hyn yn agor y map mewn tab ar wahân.

Syllwr mapiau

O'r syllwr mapiau gallwch gael mynediad at yr haenau ar wahân sy'n creu'r map, yn ogystal â chael mynediad at swyddogaethau ychwanegol, megis argraffu, mesur a rhannu.

Er mwyn llywio yn ôl i'r dudalen catalog, dilynwch y trywydd ar gyfer y dudalen:

[Hafan](#) > [Catalog data](#) >

I newid y map sylfaen:

1. Defnyddiwch y cryno-lun map ar y map:




2. Defnyddiwch y saethau i newid y map sylfaen a ddewiswyd.
3. Dewiswch y map sylfaen rydych chi'n ei ffafrio.

I chwilio am leoliad yn ôl cyfeiriad, cod post, enw awdurdod lleol neu ID ffordd:

1. Rhowch enw'r lleoliad yn y blwch chwilio:

2. Dewiswch leoliad o'r rhestr o ganlyniadau a awgrymir:



Bydd hyn wedyn yn mynd â chi i'r gyrchfan yr ydych yn chwilio amdani.

Syllwr mapiau: dewislen llywio

I chwyddo i mewn ac allan o'r map:

- gallwch ddefnyddio'r botymau + a – i chwyddo i mewn ac allan:



- gallwch hefyd ddwbl-glicio ar y map i chwyddo i mewn ar y pwynt hwnnw
- ar fwrdd gwaith, gallwch wasgu bysell 'shift' gan glicio a llusgo ar ardal o'r map, i chwyddo i mewn ar yr ardal honno
- ar ddyfais symudol, gallwch binsio-i-chwyddo ar ardal benodol o'r map


I gael y profiad gorau o'r map, gallwch droi at ddefnyddio'r sgrin lawn. I wneud hynny, cliciwch ar y botwm Sgrin Lawn:



I adael y sgrin lawn, cliciwch unwaith eto ar y botwm Sgrin Lawn neu, os ydych yn defnyddio bwrdd gwaith, pwyswch y fysell 'Escape'.

Syllwr mapiau: tabl cynnwys


O'r tabl cynnwys, gallwch gael mynediad at yr haenau ar wahân sy'n creu'r map.



Wrth agor y tabl cynnwys, fe welwch fod yr haenau wedi'u rhannu'n ffolderi ar wahân. I agor ffolder, dewiswch y ffolder rydych chi am ei agor:



Bydd hyn yn datgelu'r haenau sy'n creu'r grŵp hwnnw:




I gau ffolder agored, dewiswch y ffolder rydych am ei gau.



Wrth agor ffolder o'r tabl cynnwys, byddwch yn gallu ehangu haen unigol i ddatgelu ei allwedd. Gallwch wneud hyn drwy ddewis yr eicon ehangu wrth ochr enw'r haen:



Bydd hyn wedyn yn dangos yr allwedd ar gyfer yr haen honno o dan enw'r haen:



I guddio allwedd haen, dewiswch yr eicon ehangu eto:



Gallwch doglo pa haenau, neu grŵp o haenau, i'w gweld ar y map. I guddio haen o'r map cliciwch unwaith ar y botwm sy'n toglo'r hyn rydych yn ei weld:



I ddatgelu haen gudd ar y map, dewiswch y botwm sy'n toglo'r hyn rydych yn ei weld eto:




I newid tywyllni haen ar y map, defnyddiwch y llithrydd tywyllni sydd o dan enw'r haen.



Syllwr mapiau: cynfas map


Gallwch wneud ymholiad ynglŷn ag unrhyw haenau sydd i'w gweld ar y map drwy ddewis nodwedd o'r haen honno. Bydd hyn wedyn yn agor yr wybodaeth sydd ar gael ar gyfer y nodwedd honno. Er enghraifft, i gael gwybod mwy am nodwedd benodol ([gweler Atodiad A am restr gynhwysfawr o haenau a nodweddion](#)):

1. Dod o hyd i nodwedd ar y map:



2. Dewiswch y nodwedd

Bydd hyn wedyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd a ddewiswyd:



Wrth archwilio'r map, efallai y byddwch yn sylwi nad oes unrhyw wybodaeth ar gael eto ar gyfer rhai awdurdodau priffyrdd. Pan fo hynny'n wir, bydd ardal yr awdurdod priffyrdd yn llwyd i ddynodi hyn:

Atodiad A

Enw'r haen:	Mathau o nodweddion:
Statws y map	Ddim yn berthnasol
Ffyrdd sydd wedi'u heithrio drwy Orchymyn	Eithriad drwy Orchymyn (Cyfnod 1) Eithriad drwy Orchymyn (Cyfnod 2) Eithriad drwy Orchymyn (Cyfnod 3)
Ffyrdd 30mya presennol drwy Orchymyn	30mya presennol drwy Orchymyn
Ffyrdd 20mya drwy Orchymyn	20mya drwy Orchymyn (Cyfnod 1) 20mya drwy Orchymyn (Cyfnod 2) 20mya drwy Orchymyn (Cyfnod 3)
Ffyrdd 20mya cyfyngedig	Ffordd 20mya gyfyngedig